@YrYsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher:* Mr Gareth L James

## Presenoldeb (gan gynnwys gwyliau adeg tymor)

Ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd dyma gymryd y cyfle i bwysleisio mor bwysig yw presenoldeb da. Deallwn fod plant yn sâl weithiau, a phan fyddant yn sâl mae disgwyl i chi fel rhieni eu cadw adref a gofalu amdanynt, ceisio cyngor meddygol os yw'n briodol, a chyfathrebu gyda ni reswm yr absenoldeb naill ai drwy alwad ffôn neu e-bost. Os yw eich plentyn yn sâl yn gyson, neu am gyfnod estynedig, byddwn yn cynnig cymorth drwy drefnu cyfarfod i drafod neu'n cynnig cymorth y nyrs ysgol. Ein nod yw fod gan bob plentyn y cyfle orau at addysg. Dydy'r ysgol ddim yn awdurdodi unrhyw absenoldebau a achosir gan wyliau adeg tymor. Golyga hyn y caiff absenoldebau a achosir gan ddisgyblion yn cymryd gwyliau adeg tymor eu cofnodi fel rhai anawdurdodedig.

## Gwisg Ysgol

Yn dilyn cyfarfod cyntaf o'r Cyngor Ysgol wythnos hon, un o'r pwyntiau a godwyd oedd y byddent yn hoffi gweld mwy o ymdrech i wisgo gwisg ysgol. Amcangyfrifwyd fod tua 75% o'r plant yn gwisgo gwisg ysgol yr wythnos hon.

Dymuna'r Cyngor Ysgol eich hatgoffa o'r canlynol:

1. Mae gwisg ysgol yn cynorthwyo gyda'r ymdeimlad o berthyn a balchder, yn gwneud dewis gwisg yn haws yn y boreau, yn arbed amser ac arian, ac yn osgoi cymharu gwisgoedd ffasiynol ac ati.
2. Cofiwch mai dim ond yr hanner uchaf sydd yn wisg ysgol (mae croeso i bawb ddewis yr hanner gwaelod e.e trowsus/siorts, sgert, treinyrs ac yn y blaen)
3. Mae gwisg ysgol ar werth yn siopau FFIGAR ac Alison Jones
4. Mae gwisg ysgol ail-law hefyd ar werth gan yr ysgol
5. Does dim rhaid cael logo yr ysgol – byddai crys polo/siwmper goch blaen hefyd yn gwneud tro



## Grant Hanfodion Ysgol

Rhannwyd llythyr gyda chi ddoe (gweld llythyr) Er bod holl ddisgyblion oed cynradd bellach yn cael yr hawl i brydau ysgol am ddim, gallai fod mwy o help ariannol ar gael i chi trwy'r Grant Hanfodion Ysgol. Darllenwch y llythyr am fwy o wybodaeth.

## Clwb ar ôl Ysgol

Wrth lenwi manylion Clwb ar ôl Ysgol, ceisiwch fod mor gywir â phosib os gwelwch yn dda. Yr wythnos hon yn unig rydym wedi derbyn dros 40 cais i addasu/ychwanegu/canslo. Mae'r Clwb yn wasanaeth ychwanegol y mae'r ysgol yn falch iawn i drefnu er mwyn eich cynorthwyo gyda phatrwm eich oriau gwaith, ond mae'r ceisiadau cyson dyddiol yn cymryd tipyn o'n hamser ni yn anffodus, ac yn ei gwneud hi'n anoddach i ni staffio'r Clwb yn gywir. Dyma ofyn yn garedig felly i chi lenwi'r manylion ar Forms yn gywir bob wythnos.



## Diwrnod Owain Glyndŵr

Byddwn yn dathlu Diwrnod Owain Glyndŵr ddydd Llun nesaf, yr 16eg o Fedi. Bydd cyfle i fl.1a2 wisgo gwisg y cyfnod (llythyr wedi ei e-bostio at rieni bl.1a2 eisoes)

## **Gwersi Offerynnol – Diweddariad**
Bu raid addasu ychydig ar yr amserlen. Gweler y diweddariad isod:
**Dydd Mawrth** : Pres, Piano, Telyn a Ffidil **Mercher** : Drymiau **Dydd Iau** : Chwythbrennau a Gitâr **Dydd Gwener** : Soddgrwth

## Diwrnod Rhyngwladol
Cynhelir y Diwrnod Rhyngwladol eleni ar **ddydd Gwener, Hydref 11eg** – gwahoddir disgyblion i ddod i'r ysgol mewn gwisgoedd sy'n cynrychioli'r wlad y byddant yn eu hastudio;



| | |
|---|---|
| Meithrin | Cymru |
| Derbyn | Yr Alban |
| Blwyddyn 1a2 | Yr Eidal |
| Blwyddyn 3a4 | Ffrainc |
| Blwyddyn 5 | Yr Ariannin |
| Blwyddyn 6 | India |

## PC Hannah – Schoolbeat
Byddwn yn derbyn sesiynau gan PC Hannah Evans eto eleni ar gyfer cyfoethogi'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles. Bydd PC Hannah yn ymweld â disgyblion Bl.1-6. Cadwch lygad ar Negeseuon yr Wythnos ar y wefan i wybod pryd fydd hi'n mynychu dosbarth eich plentyn chi.

## Y Gymraeg
Dyma adnodd hynod o ddefnyddiol gan Dîm Datblygu'r Gymraeg:

- Cefnogi eich plentyn i ddefnyddio'r Gymraeg gartref




Mae rhifyn 6 Cewri Cymru yn fyw ar YouTube yn rhad ac am ddim!
Gyda Diwrnod Ffitrwydd Cenedlaethol ar ddydd Mercher y 18fed o Fedi, pwy well i'w chroesawu fel Cawres na Lili Jones - Clwb Pêl-droed Wrecsam.

- Lili Jones Fersiwn Iaith Gyntaf
- Lili Jones Fersiwn Ail Iaith

## Ymaelodi gyda'r Urdd
Dyma rannu'r ddolen ar gyfer ymaelodi gyda'r Urdd unwaith eto: Ymuno | Urdd Gobaith Cymru
Trwy fod yn aelod byddwch yn medru mynychu Clwb yr Urdd a chymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon ac eisteddfodol yn ystod y flwyddyn. Mae gostyngiad ariannol ar gyfer ymaelodi teulu, a £1 y plentyn ar gyfer teuluoedd sy'n derbyn budd-daliadau.

## Calendr Hanner Tymor
Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol. Sylwch fod diwrnod ola'r hanner tymor hwn yn ddiwrnod H.M.S ar gyfer hyfforddi staff. (Hydref 25ain)

## Dyddiadau pwysig yr hanner tymor nesaf
Cynhelir y Gyngerdd Nadolig eleni ar nos Iau y 12$^{fed}$ o Ragfyr yn y Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau.
Bydd yr ysgol yn cau ar gyfer gwyliau'r Nadolig am 3:30yp ar ddydd Gwener yr 20$^{fed}$ o Ragfyr 2024.

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth Dros Dro**
**13/09/2024**
www.ysgolgymraeg.cymru

@YrYsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru

Ysgol Gymraeg Aberystwyth

e-bost
swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher:* Mr Gareth L James

### *Attendance (including term time holidays)*

*At the beginning of a new school year, I would like to stress how important good attendance is. We understand that children are sometimes ill, and when they are ill you as parents are expected to keep them home and care for them, seek medical advice if appropriate, and communicate with us the reason for the absence either by phone call or email. If your child is ill often, or for an extended period, we will offer help by arranging a meeting to discuss or offer the school nurse's help. Our aim is that every child has the best chance to an education. The school does not authorise any absences caused by term time holidays. This means that absences caused by pupils taking holidays during term time will be recorded as unauthorised.*

### *School uniform*

*Following the first meeting of the School Council this week, one of the points raised was that they would like to see more effort put into wearing a school uniform. It was estimated that around 75% of the children wore school uniform this week.*

*The School Council would like to remind you of the following:*

1. *School uniform helps with the sense of belonging and pride, makes choosing an outfit easier in the mornings, saves time and money, and avoids comparing fashionable outfits etc.*
2. *Remember that our school uniform is only the top half (everyone is welcome to choose the bottom half e.g. trousers/shorts, skirt, trainers and so on)*
3. *School uniforms are for sale at FFIGAR and Alison Jones*
4. *Second-hand school uniforms are also for sale at the school*
5. *You don't have to have the school logo - a plain red polo shirt/sweater is also acceptable*



### *School Essentials Grant*

*We shared a letter with you yesterday (see letter) Although all primary age pupils are now entitled to free school meals, there could be more financial help available to you through the School Essentials Grant. Read the letter for more information.*

### *After School Club*

*When filling in the details of Club after School, please try to be as accurate as possible. This week alone we have received over 40 requests to modify/add/cancel. The Club is an additional service that the school is very pleased to organise in order to assist you with the pattern of your working hours, but the regular daily amendments unfortunately takes up quite a bit of our time and makes it harder for us to staff the Club correctly. We therefore kindly ask that you fill in the details on Forms correctly every week.*



### *Owain Glyndŵr Day*

*We will be celebrating Owain Glyndŵr Day next Monday, the 16th of September. There will be an opportunity for yrs.1&2 to wear the costume of the period (a letter has already been emailed to parents of yrs.1&2)*

*****Instrumental Lessons – Update *****

*The timetable had to be adjusted slightly. See the update below:*

***Tuesday**: Brass, Piano, Harp and Violin* ***Wednesday**: Drums* ***Thursday**: Woodwind and Guitar* ***Friday**: Cello*

### *International Day*

*This year's International Day will be held on Friday, October 11th - pupils are invited to come to school in costumes that represent the country they will be learning about:*

| | |
|---|---|
| *Meithrin* | *Cymru* |
| *Reception* | *Scotland* |
| *Years 1 and 2* | *Italy* |
| *Years 3 and 4* | *France* |
| *Year 5* | *Argentina* |
| *Year 6* | *India* |




### *PC Hannah – Schoolbeat*

*We will be receiving sessions from PC Hannah Evans again this year to enrich the Health and Wellbeing Area of Learning. PC Hannah will visit the pupils of Year 1-6. Keep an eye on the Messages of the Week on the website to know when she will be attending your child's class.*

### *The Welsh language*

*This is an extremely useful resource from the Welsh Language Development Team:*

- *Supporting your child to use the Welsh Language at home*




*Issue 6 of Cewri Cymru is live on YouTube for free! With National Fitness Day held on Wednesday the 18th of September, who better to welcome as a 'Cawres' (Giant) than Lili Jones from Wrexham Football Club.*

- *Lili Jones First Language Version*
- *Lili Jones Second Language Version*

### *Urdd Membership*

*Here is the link to join the Urdd* Join | Urdd Gobaith Cymru

*By being a member you will be able to attend Clwb yr Urdd and take part in sports and eisteddfod activities during the year. There is a discount for family membership, and £1 per child for families receiving various income support.*

### *Half Term Calendar*

*Here is the link to the Half Term Calendar for this half term. A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website. Please note that the last day of this half term is an I.N.S.E.T day for staff training. (October 25th)*

### *Important dates next half term*

*This year's Christmas Concert will be held on Thursday 12th December in the Great Hall at the Arts Centre.*
*The school will close for the Christmas holidays at 3:30pm on Friday the 20th of December 2024.*

***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

***Yours sincerely,***
***Gareth L James***
***Acting Headteacher***
***13/09/2024***

www.ysgolgymraeg.cymru